29. Clogwyn Redley

Bae Caswell, Gŵyr, Abertawe

Cyfeiriadau Grid	Map Explorer 164 yr A.O., Gŵyr; Prif fynedfa: SS 586875, Canolfan y safle: SS589875
Statws	Mae'r safle'n rhan o SoDdGA Bâe Caswell, sy'n Gofadail Hynafol Rhestredig i gyd ac wedi'i warchod gan orchymyn gwarchod coed.
Daliadaeth	Prynodd yr Ymddiriedolaeth y warchodfa ym mis Medi 1970
Maint	3.6 he (9 erw)
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	2.5 km i'r gorllewin o'r Mwmbwls. Gellir cyrraedd y safle drwy ddringo stepiau o draeth Caswell, neu ddilyn llwybr yr arfordir o Gildraeth Brandy. Nid oes modd defnyddio cadeiriau olwyn ar y safle. Fe all y llwybr arfordirol fod wedi dioddef o erydiad mewn mannau.
Cludiant cyhoeddus	Bysus rhifau 14, 14a, 14b, 14c, 113, 114 o Orsaf Fysus Quadrant yn Abertawe i Landeilo Ferwallt.

Disgrifiad: Pentir calchfaen arfordirol gyda choetir llydanddail eilradd, prysgwydd a glaswelltir. Gwelir Clogwyn Redley ar y pentir calchfaen ym mhen gorllewinol Bae Caswell. Mae'r rhannau gogleddol a dwyreiniol ar lethr serth yn wynebu tua'r gogledd ac yma fe welir coetir o brysgwydd Ynn, Cyll, Drain Gwynion a Drain Gwynion wedi'u siapio gan y gwynt. Mae iddynt ganopi isel trwchus a haen galchgar gref ar y ddaear. Mae gweddill y warchodfa ar y llethr serth sy'n wynebu tua'r de ar y pentir, ac yn ymestyn i lawr at, ac yn cynnwys, clogwyni'r môr. Mae'r copa'n cynnwys glaswelltir calchfaen ac mae mosaig o redyn, eithin, rhos a sgri ar y llethr. Yn y rhannau dwyreiniol mwy cysgodol, mae olyniaeth natur wedi ildio lle i Dderw Bytholwyrdd naturiol a Sycamorwydd, ac mae'r Creigafal wedi'i sefydlu'i hun yn dda ar y sgri. Ceir llwynogod a chwningod yma.
Mae Clochdar y Cerrig a'r Bras Melyn ymhlith yr adar mwyaf cyffredin a welir yma.

Ar y copa, gwelir gweddillion Bryngaer Caswell, Cofadail Hynafol Rhestredig o bwysigrwydd cenedlaethol ac a warchodir yn gyfreithiol. Mae hwn yn un o gyfres o safleoedd amgaëedig ar gopa'r clogwyni ar hyd arfordir de orllewin Cymru. Er bod llawer o Fryngaer Caswell wedi'i orchuddio gan lystyfiant, mae'n cynnwys adrannau allanol a mewnol o gloddiau a ffosydd.

redley cliff 1 6/7/06, 10:41 am



Nodau Rheoli: Cynnal y mosaig o lystyfiant naturiol a monitro a rheoli erydiad y llwybr troed.

Amser da i ymweld

Mawrth - Gorffennaf	Blodau'r arfordir
Ebrill - Gorffennaf	Adar yn magu